

# Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

17 Hydref 2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Mr A Archer, y Cynghorydd P Baker, Mrs D Clements, y Cynghorydd M Evans, y Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd A Wilcox, y Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am - 12.00pm]

## 1. Ymddiheuriad

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd K Doolin.

## 2. Datgan buddiant

Dywedodd yr Aelod(au) / Swyddog(ion) a ganlyn fod ganddynt fuddiant yn y cais(ceisiadau) a / neu'r mater(ion) y cyfeirir atynt isod:

Cais a Chyfeirnod	Aelod/Swyddog	Cam a gymerwyd
Cofnod 6(d) isod NP/18/0397 Mynedfa Jameston i Heol Dinbych-y-pysgod	Y Cynghorydd ML Evans	Aeth allan o'r cyfarfod tra trafodwyd y cais
Cofnod 6(g) isod NP/18/0497 Fferm Penrhiw, Cilgwyn	Y Cynghorydd P Harries	Arhosodd yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y drafodaeth
Cofnod 6(h) isod NP/18/0510 The Harbour, Wogan Terrace, Saundersfoot	Y Cynghorydd M Evans	Aeth allan o'r cyfarfod tra trafodwyd y cais
Cofnod 7 isod EC/16/0117 Maes Parcio Rhosson, St Justinians	Mrs G Hayward Y Cynghorydd P Harries Y Cynghorydd P Baker	Arhosodd pob un yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y draffodaeth
Cofnod 8 isod Apêl adran 73 ar gyfer Parc Carafannau Whitewell, Penalun	Y Cynghorydd M Evans	Aeth allan o'r cyfarfod tra trafodwyd y cais



### 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 ac 17 Medi 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 ac 17 Medi 2018.

**NODWYD.**

### 4. Yr hawl i siarad yn y Pwyllgor

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod hysbysiad priodol (cyn y dyddiad cau a bennwyd) wedi dod i law gan bartion â diddordeb a oedd am arfer eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol 7 Rhagfyr 2011, byddai gan siaradwyr 5 munud i siarad (*mae'r rhai sydd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais / ceisiadau priodol, ac yn y drefn yr oeddynt yn annerch y Pwyllgor*):

Cyfeirnod	Y cynnig	Llefarydd
NP/18/0397/FUL <i>Gweler Cofnod 6(d)</i>	Gosod giât mynediad amaethyddol (ôl-weithredol) - A4139 Jameston i Heol Dinbych-y-pysgod	Mr Anthony Wales - Cefnogwr

### 5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu ar Geisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi rôl y Pwyllgor o fewn y system gynllunio, gan amlinellu pwrpas y system gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniadau, dyletswydd yr Awdurdod i sicrhau datblygu cynaliadwy, ystyriaethau hawliau dynol, a chanllawiau'r Awdurdod i'r aelodau ar benderfyniadau yn y pwyllgor. Roedd hefyd yn nodi rhai amgylchiadau lle gellid dyfarnu costau yn erbyn yr Awdurdod ar apêl.

Atgoffwyd yr Aelodau hefyd na ddylent bleidleisio ar gais os nad oeddynt yn bresennol ar gyfer y drafodaeth gyfan ar y cais hwnnw.

**NODWYD**

### 6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau manwl Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac a gofnodwyd isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau fel a ganlyn (*mae'r penderfyniad a wnaed ar bob un yn dilyn manylion y cais perthnasol*):



- (a) CYFEIRNOD: NP/18/0302/FUL  
YMGEISYDD: Mr a Mrs B Wood  
Y CYNNIG: Dymchwel annedd unllawr presennol a chodi annedd deulawr yn ei le.  
LLEOLIAD: 24 Stryd Catrin, Tyddewi, Hwlfordd

Atgoffwyd yr Aelodau fod y cais hwn wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol, pan gafodd ei ohirio er mwyn ymweld â'r safle (*gweler Cofnod 3*). Ers yr ymweliad hwnnw, daeth cynlluniau diwygiedig i law a oedd yn ceisio goresgyn pryderon y swyddogion mewn perthynas ag amwynder. Dangosodd y rhain fod y ffenestri to a oedd yn gwasanaethu ystafell wely 2 wedi cael eu dileu. Yn lle hynny roedd un ffenestr yn uwch i fyny yn y to. Roedd y ffenestr yn y to wedi cael ei dileu o ystafell wely 1 a byddai gwydr pŵl yn cael ei roi yn yr ystafell ymolchi ensuite.

O ystyried y gwelliannau a wnaed, gan gynnwys gostwng uchder yr adeilad 30 cm, barnwyd na fyddai'r datblygiad yn bwrw'i drem i'r fath raddau fel bod angen gwrthod y cais.

Yr argymhelliad, felly, oedd ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau gan yr ystyriwyd bod yr annedd newydd arfaethedig yn dderbyniol o ran polisi cynllunio a'r effaith ar gymdogion a'r strydwedd.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am ymweliad safle defnyddiol, a soniwyd fod y marciau a roddodd yr asiant i amlinellu'r safle wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud ag amseru, cydymffurfio â'r cynlluniau, parcio, draenio dŵr wyneb a lefelau gorffenedig y llawr.**

- (b) CYFEIRNOD: NP/18/0346/OUT  
YMGEISYDD: Mr a Mrs W David  
Y CYNNIG: Codi annedd deulawr ar wahân (amlinellol)  
LLEOLIAD: Sirmione, Heol Lawrenni, Cresseli, Cilgeti

Atgoffwyd yr aelodau fod y cais hwn wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2018 pan oeddent o blaid cymeradwyo'r cais yn groes i bolisi cenedlaethol a lleol. Felly, roedd Cyfarwyddwr Cyfeiriad a Chynllunio'r Parc wedi galw ar weithdrefn 'cyfnod ystyried' yr Awdurdod.

Y materion allweddol i'w hystyried yn yr achos hwn oedd egwyddor y datblygiad ac, yn hollbwysig, hygyrchedd y safle ar gyfer y defnydd



preswyl arfaethedig. Dywedwyd bod yr ymgeisydd bellach wedi cyflwyno ymgymeriad unochrog felly roedd darparu tai fforddiadwy angenrheidiol wedi'i gwmpasu'n ddigonol yn y cytundeb cyfreithiol hwn. Fodd bynnag, yr argymhelliad o hyd oedd gwrthod y cais gan fod y cais yn groes i bolisi strategol yr Awdurdod o ran lleoli datblygiad tai ar y farchnad agored yng nghefn gwlad. Pe bai'r Aelodau'n dal i fod o blaid caniatáu'r cais, roedd yr adroddiad yn cynnwys amodau y gellid eu pennu. Nodwyd y dylai'r rheswm dros amod 6 ddarllen 'er budd trafndiaeth gynaliadwy'.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr adroddiad. Atgoffodd y Swyddog Monitro'r Pwyllgor am ofynion y weithdrefn 'cyfnod ystyried', a oedd yn gofyn am ddarparu rhesymau cynllunio perthnasol a chymryd pleidlais gofnodedig. Rhoddodd y cynigydd y rheswm cynllunio bod y datblygiad yn darparu ar gyfer dulliau cludiant cynaliadwy ac felly'n bodloni amcanion Polisi 52. Ystyriwyd bod gormod o bwysau yn cael ei roi ar Ganllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod, nad oedd yn statudol. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddyd a Chynllunio'r Parc fod y Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael eu mabwysiadu yn bolisi gan yr Awdurdod a'u bod wedi cael eu cefnogi gan arolygwyr mewn apêl gan eu bod yn adlewyrchu Polisi Llywodraeth Cymru.

Roedd un Aelod yn pryderu nad oedd unrhyw amgylchiadau newydd a allai gyfiawnhau cymeradwyo'r cais o ystyried bod yr un datblygiad wedi'i wrthod ym mis Mai 2018. Dadleuodd Aelod arall ei bod yn annheg bod cais am dai cymdeithasol yn cael ei ystyried yn ffafriol yn y lleoliad hwn ac nad oedd y sefyllfa bolisi ei hun yn gyson.

Yna, cymerwyd pleidlais gofnodedig ar y cynnig y dylid rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau, a'r canlyniad oedd:

**O blaid:** P Baker, D Clements, M Evans, R Heath-Davies, J James, P Kidney, P Morgan, R Plummer, AE Sangster, A Wilcox ac S Yelland.

**Yn erbyn:** P Harries, G Hayward, M James, R Owens ac M Williams.

**Ymatal:** Archer

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i gytundeb cyfreithiol ac amodau sy'n ymwneud â chymeradwyaeth amlinellol, amseriad, dyluniad, lefelau gorffenedig y llawr, draenio cynaliadwy, man gwefru ceir (gan nodi'r rheswm diwygiedig am yr amod hon), lle storio beiciau, parcio a throi, tirlunio, a bod y cyflenwadau trydan a ffôn yn cael eu darparu ar hyd ceblau tanddaearol.**



- (c) CYFEIRNOD: NP/18/380/FUL  
YMGEISYDD: Mr T Harris, Ffosyficer Cyf.  
Y CYNNIG: Parlwr godro newydd yn lle hen un, llwybrau newydd ar gyfer gwartheg ac addasiadau i brif fynedfa'r fferm  
LLEOLIAD: Fferm Rhosmaen, Trefdraeth

Soniwyd bod safle'r cais yn rhan o Fferm Rhosmaen, 133 hectar, a oedd â buches o oddeutu 300 o wartheg godro gyda dilynwyr. Ar hyn o bryd, roedd fynedfa'r fferm yn cael ei rhannu gyda'r ffermdy, yr adeiladau amaethyddol cyfagos ac annedd o'r enw The Cottage. Roedd llwybr cyhoeddus hefyd yn arwain trwy dir y fferm.

Gofynnwyd am ganiatâd cynllunio ar gyfer parlwr godro newydd gyda seilos, biniau, iard a llwybrau gwartheg cysylltiedig i'r beudai. Hefyd, roedd y cynnig yn cynnwys addasu'r fynedfa bresennol yn llwybr gwartheg, darparu fynedfa gerbydau newydd i'r fferm gan gynnwys cloddiau newydd, creu dwy lôn fferm ychwanegol a gwaith tirlunio cysylltiedig. Cyfeiriwyd y cais hwn i'r Pwyllgor gan ei fod yn gais Datblygu Mawr.

O ystyried natur y gwaith, deunyddiau, lliwiau a maint y sgrinio arfaethedig, roedd y swyddogion o'r farn na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar dirwedd na golygfeydd y rhan hon o'r Parc Cenedlaethol gan fod y safle'n agos i'r clwstwr presennol o adeiladau fferm ac na fyddai modd gweld llawer arno oherwydd topograffeg presennol y tir a'r strwythurau cyfagos. Argymhellwyd amod cynllunio i ofyn am strategaeth i liniaru golau rhag bod gormod o olau yn llifo o'r datblygiad arfaethedig. Ystyriwyd felly bod y datblygiad yn cadw ac yn ehangu menter amaethyddol bresennol gan gynnal y cymeriad lleol, ac na fyddai'n effeithio ar breifatrwydd nac ar amwynderau cymdogion. O'r herwydd, argymhellwyd ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau.

Wrth ddiolch i'r swyddog am gyflwyniad clir, dywedodd yr Aelodau eu bod yn falch o glywed y bu trafodaethau ynglŷn â lliw yr adeiladau a'r goleuadau cyn i'r cais ddod gerbron y Pwyllgor, gan fod y ddau fater hyn wedi codi mewn gweithdai hyfforddi a drefnwyd gan yr Awdurdod yn blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, holwyd a ddylai'r amod arfaethedig o ran goleuadau hefyd gyfeirio at unrhyw oleuadau ychwanegol neu newydd a gynigir yn y dyfodol. Nodwyd hyn gan y swyddog. Roedd yr Aelodau hefyd yn awyddus i sicrhau bod y cynllun tirlunio yn cadw cymaint â phosibl o'r hen wrychoedd ac atebodd y swyddog y byddai'r rhan fwyaf yn cael eu cadw, gyda rhai yn cael eu symud i fannau eraill. Fodd bynnag, roedd digon o fanylion ar y brasluniau a gyflwynwyd ac felly ni chynigiwyd amod tirlunio ar wahân. Ystyriwyd bod y cais yn gweddu i'r ardal a nodwyd hefyd bwysigrwydd y fferm i economi'r ardal. Cynigiwyd ac eiliwyd bod y cais yn cael ei ganiatáu.



**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud ag amseru, ei fod yn cydymffurfio â'r cynlluniau, draenio cynaliadwy, goleuo (fel y'i diwygiwyd yn y cyfarfod) ac ecoleg.**

[Gan ei fod wedi datgan buddiant, aeth y Cynghorydd M Evans allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais canlynol]

- (d) CYFEIRNOD: NP/18/0397/FUL  
YMGEISYDD: Dr J Mahoney-Phillips  
Y CYNNIG: Gosod giât mynediad amaethyddol (ôl-weithredol)  
LLEOLIAD: A4139 Jameston i Heol Dinbych-y-pysgod

Dywedwyd bod angen y fynedfa arfaethedig, a oedd yn gais ôl-weithredol, i ddarparu mynediad uniongyrchol i ddaliad amaethyddol a gyrhaeddir ar hyn o bryd ar hyd lôn fferm tua 550m ymhellach i'r dwyrain ar hyd yr A4139, gyferbyn â Gorsaf Maenorbŷr. Trwy gytundeb gyda'r tîrfeddiannwr, i gyrraedd y fynedfa bresennol i'r daliad roedd yn rhaid mynd ar draws tir dan berchnogaeth ar wahân Norton Farm.

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor gan fod Cyngor Cymuned Maenorbŷr wedi gwrthwynebu'r cais oherwydd pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd a'r rhwystr o ran creu llwybr troed yn y lleoliad hwn yn y dyfodol, a oedd yn groes i argymhelliad y swyddog, sef cymeradwyo'r cais. Fodd bynnag, nid oedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig - o ran diogelwch, teimlwyd bod safle'r fynedfa drwch blewyn y tu allan i ran o'r anheddiad lle'r oedd cyfyngiad cyflymder 30mya, ac ar ran syth o'r ffordd, a bod yn hawdd gweld i'r ddau gyfeiriad. Byddai angen caniatâd pellach gan yr Awdurdod Priffyrdd o ran croesi'r llain ar ochr y ffordd, a byddai hyn hefyd yn delio â gwrthdaro o ran llwybrau troed. Nid oedd y swyddogion priffyrdd o'r farn y byddai gwrthdaro yn codi yn y lleoliad hwn, ac y gellid ymgorffori croesfan briodol wrth ddylunio unrhyw lwybrau troed yn y dyfodol.

Felly, roedd y swyddogion o'r farn bod y fynedfa newydd yn dderbyniol o safbwynt lleoliad, dylunio a diogelwch y briffordd ac na fyddai'n achosi effaith andwyol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Barnwyd bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ac felly argymhellwyd ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau.

Roedd un siaradwr ar y cais hwn, sef Mr Anthony Wales. Eglurodd ei fod yn byw yn agos at safle'r cais ac roedd wedi gweld yn aml yr anhawster a gâi peiriannau modern i fynd drwy'r fynedfa gul bresennol. Dywedodd fod peiriannau fferm modern yn fawr ac yn ddiwydiannol eu natur. Credai y bu gwelliant cynllunio a gwelliant i ddiogelwch ffyrdd ers i'r fynedfa



newydd gael ei chreu ac roedd yn gobeithio y byddai'r Aelodau'n cefnogi'r cais. Ychwanegodd ei fod yn credu y byddai lle o hyd i'r llwybr troed arfaethedig y cyfeirir ato gan Gyngor Cymuned Maenorbŷr pe byddai'n cael ei greu.

Cytunodd yr Aelodau ei bod yn rhesymol i Gyngor Cymuned Maenorbŷr godi pryderon, ond roedd y rhain wedi cael eu hystyried gan yr Awdurdod Prifffyrdd a oedd wedi cynghori y gellid delio â hwy yn foddhaol. Roedd un Aelod yn dal i bryderu bod hwn yn ddarn cyflym o'r ffordd, gyda braidd ddim sylw yn cael ei roi i'r cyfyngiad cyflymder yn y lleoliad hwn, a holodd a oedd ffyrdd eraill wedi cael eu hystyried. Atebodd y swyddog eu bod wedi ystyried y rheini, ond eu bod yn rhy gul.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud ag amseru a chydymffurfio â'r cynlluniau.**

- (e) CYFEIRNOD: NP/18/0411/FUL  
YMGEISYDD: Ms B Devonald  
Y CYNNIG: Ailadeiladu adfeilion bythynnod i greu un uned wyliau  
LLEOLIAD: Waun-y-Beddau, ger Berea, Tyddewi

Dywedwyd bod y cais hwn wedi'i dynnu'n ôl.

**NODWYD.**

[Dywedodd y Cynghorydd P Baker, er iddo weld y cais canlynol mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Saundersfoot, y byddai'n gwranddo o'r newydd ar yr holl wybodaeth a ddarparwyd cyn dod i benderfyniad.]

- (f) CYFEIRNOD: NP/18/0490/FUL  
YMGEISYDD: Mr P Lawrence  
Y CYNNIG: Dymchwel yr ystafell fwyta unllawr presennol a chodi estyniad deulawr ar yr ochr ddwyreiniol ynghyd ag estyniad unllawr i gyfeiriad y gogledd yn y cefn.  
LLEOLIAD: 41 Neuadd Bevelin, Saundersfoot

Soniwyd bod hwn yn annedd deulawr ar wahân gyda modurdy unllawr ynghlwm (a oedd wedi'i addasu'n flaenorol yn ystafell fwyta) i'r ochr, a leolwyd ynghanol rhes o bum annedd yn Neuadd Bevelin gyda chynlluniau tebyg. Nodwyd bod nifer o'r eiddo cyfagos eisoes wedi'u hymestyn i'r ochr ac yn y cefn gydag estyniadau mawr, ond mai unllawr oedd pob un. Roedd y cais gerbron y Pwyllgor gan fod argymhelliad y swyddog, sef cymeradwyo, yn groes i farn Cyngor Cymuned Saundersfoot.



Ar ôl nodi pryderon y Cyngor Cymuned ynglŷn â maint yr estyniad o gymharu â'r plot, nad oedd yn cymharu'n esthetig â'r gweddill, a'i fod yn rhy uchel o gymharu ag eiddo cyfagos, roedd y swyddogion o'r farn bod lleoliad arfaethedig y gwaith o fewn y safle yn dderbyniol a bod gan y lluniadau diwygiedig raddfa, ffurf, màs a dyluniad manwl a oedd yn gydnaws â'r ardal ac yn darparu llety ychwanegol a oedd yn cwrdd â safonau modern dylunio cynaliadwy. Byddai cymeriad ac amwynderau'r ardal yn cael eu cynnal a'u gwarchod ynghyd â nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol pan edrychir arnynt o'r dirwedd gyfagos ac ehangach. O'r herwydd, gellid cefnogi'r datblygiad arfaethedig yn ddarostyngedig i amodau priodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd y swyddog na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau oddi wrth berchnogion yr eiddo cyfagos ac ni chredai y byddai unrhyw effaith arnynt. Dywedodd hefyd y gellid rheoli'r pryderon a godwyd gan y Cyngor Cymuned ynghylch deunyddiau a lliwiau'r gorffeniadau drwy gyfrwng amodau.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud ag amseru, cydymffurfio â chynlluniau, draenio cynaliadwy a gorffeniadau allanol.**

- (g) CYFEIRNOD: NP/18/0497/FUL  
YMGEISYDD: Mr R Vaughan  
Y CYNNIG: Adeilad amaethyddol (ôl-weithredol)  
LLEOLIAD: Fferm Penrhiw, Cilgwyn, Trefdraeth

Roedd y cais hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i aelod o staff yr Awdurdod.

Dywedwyd bod yr adeilad wedi'i godi yn 1997 gan yr ymgeisydd yn y gred na fyddai angen caniatâd cynllunio i ddisodli nifer o adeiladau llai ar yr un ôl troed. Ni ystyriwyd bod graddfa, maint a dyluniad yr adeilad yn fwy na'r raddfa dderbyniol ar gyfer menter ffermio, ac nid oedd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd nac ar dirwedd ehangach a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Cydnabuwyd bod yr ardal yn lleoliad sensitif iawn fel cynefin i ystlumod ac er mwyn gwarchod eu cynefin bwydo ac i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei sgrinio yn y dirwedd sensitif hon, cynigiwyd bod amodau cynllunio i gael gwared ag unrhyw oleuadau allanol ar yr adeilad ac i gynnal a chadw'r gwaith sgrinio, yn cael eu rhoi ar unrhyw ganiatâd cynllunio.

Er y nodwyd amlygrwydd yr adeilad, cydnabu'r Aelodau ei fod wedi bod yno ers 20 mlynedd ac felly roeddent yn falch o weld yr amodau a awgrymwyd yn ymwneud â goleuadau a thirweddu.





**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â chydymffurfio â chynlluniau, goleuadau a thirweddu.**

[Gan ei fod wedi datgan buddiant, aeth y Cynghorydd M Evans allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais canlynol.]

- (h) CYFEIRNOD: NP/18/0510  
YMGEISYDD: Ms J Jones  
Y CYNNIG: Cysgodlenni haul newydd, y gellir eu rhoi i gadw, ar y drychiad blaen  
LLEOLIAD: The Harbour, Wogan Terrace, Saundersfoot

Dywedwyd bod safle'r cais yn far / bwyty presennol (gyda defnydd A3) yng nghanol Saundersfoot fel y'i diffinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol ac o fewn Ardal Gadwraeth Saundersfoot. Roedd y cais gerbron y Pwyllgor gan fod cyd-berchennog y safle yn Aelod o'r Awdurdod.

Roedd y swyddogion o'r farn bod y cysgodlenni arfaethedig yn dderbyniol ac na fyddai'r gwaith yn cael unrhyw effaith andwyol ar amwynderau gweledol, nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol na'r amwynderau cyfagos. Felly, argymhellwyd cymeradwyo'r cais.

Aeth y swyddog ymlaen i esbonio bod cais wedi dod i law yn ddiweddar am ganiatâd hysbysebu ar gyfer yr arwydd wedi'i baentio, a ddangosir ar y cynlluniau, ar y talcen tuag at y Stryd Fawr a'r llythrennau ar y cysgodlenni. Felly, gofynnodd i'r Aelodau ddirprwyo'r penderfyniad ar yr ail gais hwn i swyddogion ar yr amod na cheir unrhyw sylwadau anffafriol gan Gyngor Cymuned Saundersfoot.

Roedd yr aelodau'n fodlon cefnogi'r ddau gais, gan nodi'r duedd bresennol ar gyfer bwyta y tu allan ac y byddai hyn yn cefnogi economi Saundersfoot.

**PENDERFYNIAD:**

- a) **Cymeradwyo'r cais ar gyfer cysgodlenni haul y gellir eu rhoi i gadw yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud ag amseru a chydymffurfio â'r cynlluniau; a**
- b) **Bod unrhyw gais cysylltiedig am ganiatâd hysbysebu yn cael ei ddirprwyo i swyddogion i'w gymeradwyo ar yr amod na cheir unrhyw sylwadau cynllunio anffafriol perthnasol gan Gyngor Cymuned Saundersfoot.**

[Yna, bu egwyl fer cyn ystyried y ddwy eitem olaf]



[Dyweddod y Cynghorydd P Baker, Mrs G Hayward a'r Cynghorydd P Harries fod ganddynt fuddiant personol yn y mater canlynol, ond gwnaethant aros yn y cyfarfod gan gymryd rhan lawn yn y drafodaeth]

**7. Gorfodaeth a Materion Eraill: EC/16/0117 - Defnyddio Tir heb Ganiatâd fel Maes Parcio - Maes Parcio Rhosson, Capel Rhosson, St Justinians, Tyddewi**

Atgoffwyd yr aelodau am hanes y safle hwn o ran cynllunio ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio i'w ddefnyddio dros dro fel maes parcio o 1 Ebrill i 31 Hydref am gyfnod o 3 blynedd ar 11 Tachwedd 2015, ar y sail bod ei ddefnyddio'n barhaus yn cael effaith andwyol ar leoliad yr adeiladau rhestredig Gradd II cyfagos. Yn sgil cwyn ym mis Hydref 2016 bod y tir yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio heb ganiatâd cynllunio, cyflwynwyd hysbysiad gorfodi a gafodd ei apelio gan y tîrfeiddiannwr. Cadarnhaodd yr Arolygydd yr hysbysiad gorfodi, ond gan estyn cyfnod o amser i gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad. Daeth y gofyniad i roi'r gorau i ddefnyddio'r safle fel maes parcio i rym ar 29 Ionawr 2018 a'r gofyniad i ddychwelyd y tir i'w gyflwr blaenorol ar 24 Mai 2018. Fodd bynnag, derbyniwyd cwynion bod y safle wedi parhau i gael ei ddefnyddio fel maes parcio yn ystod mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi 2018.

Daeth y swyddogion i'r casgliad bod y safle yng nghefn gwlad agored ac yr ystyriwyd nad oedd defnyddio'r tir fel maes parcio yn ddefnydd priodol yn y lleoliad hwn, gan ei fod yn effeithio ar gymeriad a golwg y tir a'r eiddo rhestredig Gradd II cyfagos. Roedd y defnydd o'r tir yn rhinwedd ei raddfa, ei ffurf, ei ymddangosiad a'i leoliad yn cael effaith andwyol ar gymeriad tirwedd arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr oedd gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i'w warchod a'i wella. Roedd y maes parcio yn amharu ar dirwedd agored, heb ei difetha. Argymhellwyd felly y dylid rhoi awdurdod i gyfarwyddo cyfreithwyr i gychwyn achos erlyn am beidio â chydymffurfio â'r Hysbysiad Gorfodi ac i atafaelu'r elw o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

Gofynnodd un o'r Aelodau newydd a oedd ateb hirdymor i'r sefyllfa yn St Justinians. Dywedodd y Cynghorydd Baker ei fod yn cadeirio Pwyllgor Rhanddeiliaid yn cynnwys swyddogion o Gyngor Sir Penfro, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a rhanddeiliaid, ond nad oedd y broses o ddod o hyd i ateb yn hawdd ac nad oedd yr holl randdeiliaid eto wedi ymrwymo i ateb mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, roedd yn obeithiol bod cynnydd yn cael ei wneud ac roedd o blaid oedi cyn gweithredu. Cytunodd yr Aelodau eraill fod yr amseru'n hanfodol, ac er eu bod yn cefnogi'r argymhelliad, nid oeddynt eisiau rhwystro'r cynnydd tuag at gael ateb cytûn trwy weithredu'n rhy gyflym nac achosi niwed i enw da.

Dyweddod Cyfarwyddwr Cyfarwyddyd a Chynllunio'r Parc fod angen dau beth; yn gyntaf roedd angen sicrhau bod yr hen orsaf bad achub ar gael



at ddefnydd pobl â chychod, ac yn ail, roedd angen trafndiaeth gynaliadwy o ganol Tyddewi gan y byddai hyn yn cynnig ateb cyffredinol gwell ar gyfer y Penrhyn cyfan. Roedd yr Awdurdod wedi darparu £10,000 tuag at ddylunio a gweithredu man troi priodol ar gyfer bysiau ar ddiwedd y ffordd a fyddai'n gwella'r sefyllfa bresennol. Nodwyd nad oedd unrhyw randdeiliaid eraill wedi cynnig gwneud cyfraniad ariannol i gael ateb. Teimlai, er mwyn cynnal y momentwm presennol, fod angen cymryd camau cadarn o ran parcio heb ganiatâd yn St Justinians. Ychwanegodd y Swyddog Monitro y byddai sawl mis yn mynd heibio cyn bod unrhyw achos yn dod gerbron y Llys Ynadon ac y gellid tynnu'r erlyniad yn ôl ar unrhyw adeg pe byddai hynny'n cael ei ystyried yn fuddiol ac er budd y cyhoedd.

Roedd yr Aelodau eraill yn cefnogi'r argymhelliad, gan gytuno nad oedd y safle dan sylw yn un a oedd yn addas fel maes parcio a bod erlyniad yn gam nesaf rhesymegol i'r Awdurdod o ystyried hanes y safle. Roeddynt yn cydnabod bod y teithiau cwch yn atyniad pwysig ar gyfer Penrhyn Dewi, ond bod yr ateb a gynigiwyd gan swyddogion yn un a fyddai'n cefnogi'r economi ehangach ac yn ffocysu'r meddwl. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd y gallai oedi cyn dechrau achos tan ar ôl y cyfarfod rhanddeiliaid ym mis Tachwedd fod o gymorth. Dywedodd y Swyddogion, gan y byddai'n cymryd sawl wythnos cyn i gyfreithiwr gael ei gyflogi, eu bod o'r farn nad oedd angen oedi o'r fath.

Mynegodd rhai Aelodau bryder ynglŷn ag atafaelu elw o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, gan gredu y gallai hyn waethygu'r sefyllfa. Eglurwyd bod hwn yn gais safonol yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ei fod yn rhwystr o ystyried y lefelau isel o ddirwyon a osodwyd yn gyffredinol am beidio â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi.

Daethpwyd i'r casgliad fod y broblem barcio yn St Justinians wedi parhau ers blynyddoedd lawer, heb fawr ddim cynnydd wedi'i wneud. Felly, cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad fel y'i nodwyd yn yr adroddiad. Nodwyd y gallai'r achos ddod i ben pe byddai'r trefeddiannwr yn cydymffurfio â'r hysbysiad gorfodi.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi'r Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Cyfeiriad a Chynllunio'r Parc / Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu i gyfarwyddo cyfreithwyr i gychwyn achos erlyn yn y Llys Ynadon am beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gorfodi EC/16/0117 ac i atafaelu'r elw o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

*[Tynnodd y Cyngorydd M Evans allan o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol, ar ôl datgelu diddordeb yn y mater]*



## 8. Apelau

Cafwyd adroddiad gan Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu am 4 apêl (yn erbyn penderfyniadau cynllunio a wnaed gan yr Awdurdod) a oedd wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru a dywedodd ar ba gam o'r broses apelio yr oedd pob achos.

Roedd penderfyniad yr apêl mewn perthynas â diddymu'r amodau ar Barc Carafannau Whitewell, Penalun - a wrthodwyd - yn atodedig er gwybodaeth. Erbyn hyn roedd y mater yn nwylo cyfreithiwr i gychwyn achos llys a gobeithir hefyd atafaelu'r elw o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

Soniwyd hefyd fod yr apêl ym Maes Carafannau a Gwersylla Buttyland, Maenorbÿr wedi'i dynnu'n ôl.

Roedd yr hen sied eifr ym Mhen y Mynydd Uchaf, Dinas, y gwnaed cais ôl-weithredol i newid ei defnydd yn fwthyn gwyliau, wedi llosgi'n ulw a disgwylir am gyngor yr arolygiaeth ar y mater.

### **NODWYD.**

